

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD
HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 7 MAI 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd J Gebbie – Cadeirydd

E L P Caparros

P Davies

M J Evans

M Jones

Presennol – O Bell

F D Bletsoe
A Ulberini-Williams

N Farr

D M Hughes

J E Pratt

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cyng J Spanswick

Swyddogion:

Claire Marchant
Claire O'Keefe
Steve Berry
David Wright
Daniel Bolton
Amy McArdle
Nichola Rogers

Jodi Farley-Morris

Christa Bonham-Griffiths
Megan Apsee
Michael Pitman
Oscar Roberts

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Pennaeth Diogelu – Cwm Taf Morgannwg
Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad
Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparu
Rheolwr Datblygu Rhanbarthol – Cwm Taf Morgannwg – Maethu Cymru
Rheolwr Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol - Gwasanaeth Mabwysiadu
Rhanbarthol Bae'r Gorllewin
Rheolwr Recriwtio ac Asesu ar gyfer Bae'r Gorllewin - Gwasanaeth Mabwysiadu
Rhanbarthol Bae'r Gorllewin
Rheolwr Strategol – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
Rheolwr Tîm Ymgysylltu ag Addysg
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd

Datganiadau o Ddiddordeb
Dim.

67. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo cofnodion y 10/01/2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

68. Adroddiad Trosolwg O'r Gwasanaethau Iechyd a Ddarperir i Ofalu Plant A Phobl Ifanc Profiadol

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Bennaeth Diogelu Cwm Taf Morgannwg, oedd rhoi amlinelliad o'r gwasanaethau iechyd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) yn eu darparu i blant sydd wedi bod mewn gofal yn ogystal ag amlinellu cyflawniad amcanion o fewn Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid i Gymru. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar y canlynol: • Rhestrau aros ar gyfer plant niwroamrywiol • Rhestrau aros CAMHS • Llwybr y galw am wasanaethau CTM a'r adnoddau a ddefnyddir i ddiwallu'r galw hwnnw • Methu â chyflawni amcanion o fewn Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid i Gymru • A yw amserlenni o fewn deddfwriaeth yn cael eu bodloni Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Bennaeth Diogelu Cwm Taf Morgan, y Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cytunodd Pennaeth Diogelu Cwm Taf Morgan i drosglwyddo gwybodaeth am ostyngiadau mewn rhestrau aros ar gyfer plant niwroamrywiol ac unrhyw ôl-groniadau gwasanaeth cyfredol i Bwyllgor y Cabinet. Cytunodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad hefyd i rannu gwybodaeth CAMHS â'r Pwyllgor. <u>PENDERFYNWYD</u>: Nododd y Pwyllgor Cabinet yr adroddiad a chyfraniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

	Taf Morganwg at gefnogi babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Diolchodd y Pwyllgor i weithwyr gofal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am eu gwaith a'u cyflawniad yn erbyn amcanion yr adroddiad hwn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

69. Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr Diweddariad

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparwyr a'r Rheolwr Datblygu Rhanbarthol - Cwm Taf Morganwg - Maethu Cymru, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Cabinet - Rhianta Corfforaethol ar Ddatblygiadau Gwasanaeth Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar: • Y cynnydd yn nifer y plant ag anghenion cymhleth sydd angen eu maethu • Y rhesymau dros gyfraddau trosti isel o ymweliadau cychwynnol i asesiadau • Pwyntiau gwella o arolygiadau diweddar Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparwyr, y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol - Cwm Taf Morgannwg - Maethu Cymru a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor Cabinet gynnwys yr adroddiad. Diolchodd Pwyllgor y Cabinet i bawb a oedd yn rhan o gynhyrchu'r adroddiad a gofalmwyd maeth y Cyngor. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am anfon proffiliau a thudalennau enghreifftiol o'r ap Croeso Mawr newydd at y Pwyllgor Cabinet.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

70. Monitro Perfformiad a Chynnydd Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Reolwr Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol -
------------------------	---

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

	Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, oedd darparu gwybodaeth i Bwyllgor y Cabinet am berfformiad a chynnydd Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad diwedd y flwyddyn. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys fideo ar gyswllt rhwng brodyr a chwiorydd a'r teulu. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar: • Yr amserlen ar gyfer darpar rieni mabwysiadol yn cael eu hardystio • Nifer y mabwysiadwyr cymeradwy sy'n dod drwodd, a chyfradd drosi'r rhai sy'n cael eu cymeradwyo • Aelodaeth o'r Clwb Ieuenctid cysylltiedig Atebwyd y cwestiynau hyn gan Reolwr Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol - Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, y Cadeirydd a Rheolwr Recriwtio ac Asesu Bae'r Gorllewin - Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Cabinet berfformiad a chynnydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol. Diolchodd Pwyllgor y Cabinet hefyd i bawb a oedd yn rhan o greu'r adroddiad, yn ogystal â'r rhwydwaith o fabwysiadwyr a rhieni mabwysiadol. Gofynnodd y Pwyllgor Cabinet hefyd am ddyddiadau penodol ar gyfer adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y gwasanaeth. Gadawodd y Cynghorydd N Farr a'r Cynghorydd J E Pratt y cyfarfod yn dilyn yr eitem hon.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

71. Ffocws Ar Ymgysylltu - Llais Y Plentyn

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad, oedd rhoi trosolwg i Bwyllgor y Cabinet ar Rhianta Corfforaethol o weithgaredd Fforwm Ieuenctid Profiadol Gofal ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar y canlynol:
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

	• Y rhesymau dros ddewis cartref y Fforwm yn Neuadd Evergreen • Cynlluniau ar gyfer ehangu presenoldeb yn y Fforwm • Cyfyngiadau ar bresenoldeb ar gyfer sesiynau unigol • Beth all aelodau etholedig ei wneud i gynorthwyo gyda nodau'r Fforwm leuenctid • Cynlluniau lleol i ddarparu offer i bobl ifanc sydd wedi profi gofal • Tafl-lwybr nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad a Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor Cabinet yr adroddiad a rhoddodd gydnabyddiaeth i'r gwaith y mae Fforwm Llais leuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

72. Diweddariad gan y Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid ar Blant sydd wedi Profiad o Ofal

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Strategol – Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Cabinet ynghylch Rhianta Corfforaethol ar ddarpariaeth Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid Pen-y-bont ar Ogwr (BYJS) sydd ar gael i blant sydd wedi cael profiad o ofal sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar: • Oedi y mae plant sydd wedi bod mewn gofal yn ei brofi wrth gael mynediad at wasanaethau CAMHS neu gamddefnyddio sylweddau • A yw'r plant yn yr adroddiad wedi bod yn hysbys i Gyfiawnder leuenctid o'r blaen, ac a yw unrhyw rai wedi'u nodi fel troseddwr toreithiog Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Rheolwr Strategol – Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid. PENDERFYNWYD: Pwyllgor y Cabinet: • Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad • Rhoddwyd adborth
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

	Diolchodd Pwyllgor y Cabinet i'r tîm Cyfiawnder Ieuenctid am eu gwaith ar yr adroddiad hwn. Gadawodd y Cyngorydd F Bletsoe y cyfarfod yn dilyn yr eitem hon.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

73. Cefnogaeth Tîm Ymgysylltu Addysg ar gyfer Plant sydd wedi Profiad o Ofal

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Reolwr y Tîm Ymgysylltu ag Addysg, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Cabinet am Rianta Corfforaethol ar y gefnogaeth a ddarperir gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg (EET) i blant sydd wedi bod mewn gofal. Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ar: • Faint o blant sydd wedi profi gofal nad ydynt yn mynychu'r ysgol, neu sydd ar amserlenni llai • Lefelau cyrhaeddiad plant sydd wedi bod mewn gofal o'u cymharu â'r boblogaeth safonol • Cymorth pwrpasol i bobl ifanc hŷn • Y rheswm dros lefelau cyflawniad gan blant sydd wedi profi gofal Atebwyd y cwestiynau hyn gan Reolwr y Tîm Ymgysylltu ag Addysg. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddarau i Bwyllgor y Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nodau hyn ymhenn blwyddyn. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol gynnwys yr adroddiad a rhoi adborth ac argymhellion. Diolchodd y Pwyllgor Cabinet i'r tîm Ymgysylltu ag Addysg am eu gwaith ar yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

74. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Mai 2025

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHINI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 7 MAI 2025

--	--

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:30